


MICROPLASTIG: Y STORI LLAWN

Am fwy o newyddion plastig:

 @_niahjones

 niajones@bangor.ac.uk

O BLE MAE'N DOD?

Mae plastig yn ddeunydd a wnaed gan ddyn, fel arfer wedi'i wneud o **danwydd ffosil**. Daw'r rhan fwyaf o lygredd plastig cefnfor o ffynonellau ar dir gan gynnwys **tomenni sbwriel, diwydiant a dŵr carthion**.

SUT MAE'N TORRI I FYNY?

Wrth i blastig dreulio mwy o amser yn y dŵr mae y tonnau a **golau UV** o'r haul yn gwanhau'r deunydd. Yn y pen draw, mae'n torri i fyny i darnau bach o blastig o'r enw **microplastig**.

Mae microplastigion yn ddarnau bach o blastig llai na 5 mm o hyd ac yn dod mewn amryw o siâpiau a mathau gwahanol o blastig.

Microplastigion cynradd yw'r rhai sy'n dod i mewn i'r amgylchedd yn barod fel microplastig.

Microplastigion eilaidd yw ddarnau mwy o blastig sy'n torri lan i ficroplastig yn yr amgylchedd ei hun, fel y gwlewch yn y ffeithlun hwn.

I BLE MAE'N MYND?

Unwaith mae plastig o fewn ein cefnfor, mae yn cael ei gludo o amgylch y byd gan **geryntau cefnfor** enfawr sy'n cysylltu gwledydd yn byd eang.

SUT MAE'N BERYGLUS?

Mae plastig yn ddeunydd amsugol, sy'n caniatáu iddo gario **tocsinau niweidiol** ar ei wyneb a all fod yn beryglus i anifeiliaid morol - o'r crwbau lleiaf i'r morfil mwyaf yn y cefnfor wrth i'r tocsinau yma cronni yn eu bolau.

GWEITHGAREDD

Nawr eich bod chi'n gwybod mwy am stori microplastig, beth am fod yn ymchwilydd microplastig go iawn ac edrych ar-lein sut mae'r geiriau **mewn glas** yn cyfrannu at ein problem llygredd plastig?

Meddylwch am y cwestiynau canlynol:

1. Beth allwch chi ei wneud yn bersonol yn eich cartref / ysgol / cymuned i leihau llygredd plastig?
2. Sut mae gwyddonwyr, peirianwyr a dyfeiswyr yn gweithio i helpu'r problem?